**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-(L) FM -/0641/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@cynulliad.cymru

31 Hydref 2018

Annwyl Mick

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r Inquiries and Coroners (Amendment) (EU Exit) Regulations 2018, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30A.

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi nad wyf yn bwriadu gosod cynnig i drafod yr OS hwn yn yr achos hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwnnw ar sail y ffaith mai'r unig ffordd a wnelo'r OS â ni yw ei fod yn cywiro cyfeiriadau a fydd wedi dyddio mewn cyfraith oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r darpariaethau yn yr OS yn rhai technegol eu natur, ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei hystyried, nid wyf o'r farn y byddai dadl am yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser gwerthfawr y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae RhS 30A y darparu y caiff unrhyw aelod gyflwyno cynnig i drafod yr OS hwn, a byddwn yn fwy na pharod i gymryd rhan mewn dadl, os caiff un ei chynnal.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.